**Y CABINET  DYDD MAWRTH, 16 MEDI 2025**

**Yn bresennol-**
Y Cynghorwyr: Nia Jeffreys, Menna Trenholme, R. Medwyn Hughes, Craig ab Iago, Huw Wyn Jones, June Jones, Dilwyn Morgan, Llio Elenid Owen, Paul Rowlinson a Dewi Jones.

**Hefyd yn bresennol-**
Dafydd Gibbard (Prif Weithredwr), Nia Grisdale (Rheolwr Gwasanaethau Cyfreithiol), Dewi Morgan (Pennaeth Cyllid), Catrin Thomas (Cyfarwyddwr Corfforaethol), Bethan Richardson (Rheolwr Rhaglen Newid Hinsawdd), Esyllt Rhys Jones (Rheolwr Rhaglenni Adfywio), Llŷr B Jones (Pennaeth Cynorthwyol Economi a Chymuned), Delyth Williams (Ymgynghorydd Cydraddoldeb), Gwen Roberts (Swyddog Gwasanaethau Democratiaeth) a Courtney Leigh Jones (Swyddog Gwasanaethau Democratiaeth).

**1. YMDDIHEURIADAU**

Croesawyd pawb i'r cyfarfod gan nodi ei bod yn ddiwrnod Owain Glyndŵr. Diolchwyd i staff y Cyngor a'r Cynghorwyr am eu gwaith diflino drwy gyfnod yr Haf. Croesawyd Catrin Thomas i'r cyfarfod yn ei rôl newydd, sef Cyfarwyddwr Corfforaethol y Cyngor.

Ni dderbyniwyd unrhyw ymddiheuriad.

**2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Derbyniwyd datganiadau o fuddiant personol mewn perthynas ag Eitem 6 gan y Cyng. Paul Rowlinson gan ei fod ar Fwrdd Ynni Ogwen, a gan y Cyng. Menna Trenholme gan ei bod yn gyfarwyddwr ar Gwyrfai Gwyrdd. Nodwyd bod y rolau hyn yn rai gwirfoddol felly nid oedd y buddiannau'n rhagfarnu, a ni wnaethant adael y cyfarfod.

**3. MATERION BRYS**

Nid oedd unrhyw fater brys.

**4. MATERION YN CODI O DROSOLWG A CHRAFFU**

Nid oedd unrhyw fater yn codi o drosolwg a chraffu.

5. **COFNODION**

Derbyniwyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 8 Gorffennaf 2025 fel y rhai cywir.

6. **CYNLLUN YNNI LLEOL**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan y Cyng. Craig ab Iago.

**PENDERFYNIAD**

Derbyniwyd yr adroddiad.

**TRAFODAETH**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan ei ganmol, ond nodwyd ei bod yn annhebygol y bydd adnoddau ac arian yn dod gan Lywodraeth Cymru i weithredu ar y Cynllun ar hyn o bryd.
Mynegwyd pryder nad yw'r cynlluniau newid hinsawdd yn rhan o ddiwylliant Cymru ar y funud, er pwysigrwydd cyrraedd y targedau a osodwyd. Nodwyd bod ansicrwydd ynglŷn â chanlyniad Etholiad y Senedd yn 2026 a sut y bydd hyn yn effeithio'r pwyslais a gaiff ei roi ar faterion amgylcheddol wrth symud ymlaen. Cadarnhawyd bod dyfnder y cynllun hwn yn golygu y gellir ei ddefnyddio beth bynnag a ddigwyddai yn yr Etholiad.

Pwysleisiwyd pwysigrwydd cydweithio â siroedd eraill yng Ngwynedd er mwyn gweithredu'r Cynllun. Atgoffwyd pawb nad Cynllun i Gyngor Gwynedd yn unig yw hwn ond cynllun i Wynedd gyfan.
Datganwyd bod y Cynllun yn rhan o rwydwaith o gynlluniau ynni lleol i bob sir yng Nghymru, a bydd y cynllun yn bwydo i fewn i gynllun rhanbarthol sydd eisoes yn ei le. Ychwanegwyd bod gobaith y bydd y cynlluniau hyn yn arwain at gynllun ynni cenedlaethol a gaiff ei arwain gan y Llywodraeth.

Eglurwyd bod y Cynllun yn ceisio edrych ar ym mhle a gan bwy mae'r galw am ynni, a sut y caiff yr ynni ei gynhyrchu a'i ddosbarthu. Ychwanegwyd bod yr Adroddiad Technegol yn ddefnyddiol gan fod bas data gwerthfawr y gellir dibynnu arno, ond cadarnhawyd y bydd hwn angen ei ddiweddaru mewn ychydig flynyddoedd, fel mae sefyllfaoedd yn newid.
Argymhellwyd bod angen ail edrych a diweddaru'r cynllun hwn bob rhyw 3 – 5 mlynedd.

Sylwadau'r codi o'r drafodaeth:

- Soniwyd bod gan Uchelgais Gogledd Cymru nifer o gynlluniau ar y gweill a holwyd os oes bwriad o drafod gyda nhw er mwyn ceisio sicrhau cyllid i wireddu cynlluniau o'r adroddiad. Eglurwyd bod bwriad o sicrhau

trafodaethau ar lefel rhanbarthol, gan gynnwys gydag Uchelgais Gogledd Cymru, a bod ceisiadau am gyllid pellach yn cael eu cyflwyno i Lywodraeth Cymru neu sefydliadau perthnasol i ariannu'r cynlluniau.

- Datganwyd bod dros £270miliwn wedi ei fuddsoddi mewn ynni gwyrdd rhwng 2012 a 2025 ond bod yr adenillon o hyn yn dros £400miliwn. Gan ategu pwysigrwydd y Cynllun hwn, ychwanegwyd bod buddsoddiad mewn ynni gwyrdd yn helpu'r economi yn ogystal â chreu swyddi, sydd yn ei dro yn sicrhau ein bod yn cyrraedd y targedau net sero.
- Nodwyd bod yr ystadegau hyn wedi eu hamlygu gan y Llywodraeth wrth sôn am economi gylchol, ond eto bod dim buddsoddiad ganddynt i wireddu cynlluniau fel hyn.

## 7. CYNNAL PLEIDLAIS ARDALOEDD GWELLA BUSNES BANGOR

Cyflwynwyd yr adroddiad gan y Cyng. R Medwyn Hughes.

**PENDERFYNIAD**
Derbyniwyd yr adroddiad.

**TRAFODAETH**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan ddatgan bod yr Ardal Gwella Busnes (AGB) ym Mangor wedi cyflwyno rhybudd i'r Cyngor ar gyfer adnewyddu'r AGB.
Nodwyd nad yw hi'n ymddangos bod y rhybudd yn gwrthdaro gydag unrhyw bolisi sydd gan y Cyngor, felly gyda chymeradwyaeth y Cabinet, y cam nesaf fydd i'r Cyngor gyfarwyddo'r swyddog canlyniadau i gynnal y bleidlais ar y dyddiadau a nodir yn yr adroddiad.
Ychwanegwyd bod y mater hwn yn dechnegol ac yn ymarferol o ran trefniadau.

## 8. ADRODDIAD BLYNYDDOL 2024-25, CYNLLUN CYDRADDOLDEB STRATEGOL 2020-24

Cyflwynwyd yr adroddiad gan y Cyng. Llio Elenid Owen

**PENDERFYNIAD**

Derbyniwyd yr adroddiad.

**TRAFODAETH**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan ddatgan mai hwn yw adroddiad blynyddol cyntaf Cynllun Cydraddoldeb 2024-2028.

Eglurwyd bod yr adroddiad yn nodi'r cynnydd sydd wedi ei wneud yn erbyn y 5 amcan cydraddoldeb a gaiff ei nodi yn yr adroddiad, sef y gwaith hwnnw fydd yn flaenoriaeth i'r Cyngor drwy gydol cyfnod y Cynllun.
Ymfalchïwyd yn y ffaith bod y rhan fwyaf o'r gwaith a glustnodwyd ar gyfer y cyfnod wedi ei gwblhau, a bydd unrhyw waith heb ei gwblhau yn cael ei wneud eleni.

Amlygwyd rhai o brif bwyntiau'r adroddiad:

- Soniwyd bod y Cyngor wedi derbyn achrediad lefel 2 o'r Cynllun Hyderus o ran Anabledd, a nawr yn gweithio tuag at lefel 3.
- Nodwyd bod Fforwm Cydraddoldeb Staff wedi cychwyn fel bod modd i staff gyfrannu a rhoi barn ar faterion cydraddoldeb o fewn eu cyflogaeth.
- Amlygwyd bod hyfforddiant yn cael ei roi i staff ac i aelodau etholedig yn y maes niwroamrywiaeth. Ychwanegwyd bod y niferoedd o staff sy'n gwneud yr hyfforddiant mandadol nawr ar gael i'r aelodau, ac mae meysydd blaenoriaeth ar gyfer hyfforddiant wedi cael eu hadnabod felly mae'r gwaith i drefnu hyfforddiant yn y meysydd cydraddoldeb eraill ar droed.
- Datgelwyd bod yr Adran Tai ac Eiddo wedi bod yn casglu gwybodaeth drwy'r arolwg corfforaethol Ardal Ni, yn uchafu'r nifer o dai fforddiadwy ac yn darparu cymorth er mwyn cynyddu effeithlonrwydd tai. Ategwyd bod trefniadau wedi cael eu symleiddio fel ei bod yn haws i bobl gael mynediad at grant cymorth tai a'r drefn tai cymdeithasol.
- Nodwyd bod camau gweithredu wedi eu sefydlu ar gyfer ysgolion drwy ddadansoddi'r Siarter 'Y Gost o Fynychu'r Ysgol', sy'n edrych ar y gost ariannol ac emosiynol i blant fynychu'r ysgol.
- Mae Cydlynydd Cyfathrebu ac Ymgysylltu wedi'i benodi i sefydlu trefniadau effeithiol i dderbyn mewnbwn plant a phobl ifanc, drwy gynghorau a fforymau ysgol, gan sicrhau gweithredu ar lais y disgybl, beth bynnag eu nodweddion gwarchodedig a'u hanghenion.

Eglurwyd bod nifer o adrannau gwahanol ar draws y Cyngor wedi bod yn rhan o adeiladu'r Cynllun, a bod hyn wedi cyfrannu at ei lwyddiant.

Sylwadau'n codi o'r drafodaeth:

- Diolchwyd am yr adroddiad, a mynegwyd balchder o weld ffocws wedi ei roi ar drafod gyda chymunedau a gwrando ar leisiau pobl ifanc y sir.
- Holwyd am yr ymateb sy'n deillio o'r Fforwm Cydraddoldeb Staff. Cadarnhawyd mai un cyfarfod sydd wedi bod hyd yma, a bod bwriad i adeiladu ar hyn.

- Crybwyllwyd cyfraniad yr Adran Tai ac Eiddo i'r cynllun a thynnwyd sylw at y ffaith fod y Siop Un Stop nawr ar agor. Nodwyd y bydd hyn yn ehangu mynediad y cyhoedd at wasanaethau tai a fydd, yn y pen draw, yn hyrwyddo cydraddoldeb.
- Pwysleisiwyd pwysigrwydd y parhad yn ymrwymiad y Cyngor i gydraddoldeb. Soniwyd am y gwaith gwych a wneir gan y tîm awtistiaeth yn ogystal. Mynegwyd balchder bod Gwynedd yn Awdurdod Oed Gyfeillgar sydd wedi ei ddynodi gan sefydliad Iechyd y Byd, a bod y cynllun hwn yn cadarnhau ymrwymiad y Cyngor i'r dynodiad hwnnw.
- Ategwyd ei bod yn hanfodol i'r Cabinet ystyried cydraddoldeb ar bob adeg yn ei benderfyniadau.
- Tynnwyd sylw at y ffaith bod 18 cwyn yn gysylltiedig â chydraddoldeb wedi eu nodi yn yr adroddiad, a 7 o'r rheiny yn gwynion dilys; holwyd sut y defnyddir y wybodaeth hon i wella gwasanaethau. Nodwyd bod 'mynediad' wedi ei adnabod fel patrwm yn y cwynion hyn, ac ychwanegwyd ei fod yn bwnc sydd o fewn y Cynllun yn barod â'r mannau problemus wedi eu hadnabod ac yn cael sylw arbennig.
- Soniwyd am roi ffocws ychwanegol o fewn y prosiect Merched Mewn Arweinyddiaeth ar ferched o gefndiroedd lleiafrifol ethnig a'r rheiny sydd ag anableddau er enghraifft. Cadarnhawyd bod sylw'n cael ei roi i'r mater hwn o fewn Amcan 1 y Cynllun yn barod.

## 9. CYNLLUN ARIANNOL TYMOR CANOLIG

Cyflwynwyd yr adroddiad gan y Cyng. Huw Wyn Jones.

**PENDERFYNIAD**

Derbyniwyd yr adroddiad.

**TRAFODAETH**

Eglurwyd bod y Cynllun Ariannol Tymor Canolig yn hanfodol wrth gefnogi gwydnwch y Cyngor, drwy ddarparu rhagolwg strategol o'r rhagolygon ariannol ar gyfer cyfnod o 3 blynedd, sy'n cychwyn ar 1 Ebrill 2026.
Nodwyd bod yr amcangyfrifon hyn yn seiliedig ar y rhagolygon diweddaraf sydd ar gael am y newid yn yr incwm a fydd y Cyngor yn ei dderbyn dros y cyfnod (drwy Grant y Llywodraeth a Threth Cyngor), a'r gofynion gwariant ychwanegol dros yr un cyfnod.
Pwysleisiwyd bod yr adroddiad yn ddogfen fyw, ac y bydd yn newid fel mae mwy o wybodaeth ar gael.

Eglurwyd nad yw'r Cyngor yn disgwyl cael gwybod beth fydd Grant y Llywodraeth ar gyfer 2026/27 tan o leiaf fis Tachwedd eleni, ond gyda'r rhagolygon fod Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a'r Gymraeg yn bwriadu rhoi cynnydd o 2% ar holl benawdau gwariant cyllideb y Llywodraeth ar gyfer 2026/27, gall y Cyngor ddisgwyl cynnydd blynyddol yn ei setliad ariannol o oddeutu 1.5%.
Datganwyd bod blwch cronnus o £40miliwn yn cael ei ragweld dros y tair blynedd nesaf.

Soniwyd i'r Cyngor dderbyn arian ychwanegol yn ystod y flwyddyn hon gan Lywodraeth Cymru; nodwyd y croesawir hyn ond y byddai derbyn yr arian hwn ar gychwyn y flwyddyn fel rhan o'r setliad yn fwy buddiol i awdurdodau lleol.
Cadarnhawyd bod y diffyg eglurder a'r negeseuon anghyson gan Lywodraeth Cymru a Llywodraeth San Steffan yn gwneud blaen gynllunio ar sail setliad tebygol 2026/27 yn anoddach na'r arfer.

Cyfeiriwyd at fygythiad Llywodraeth Cymru o "rollover budget" ar gyfer 2026/27, sef parhad o gyllideb eleni gan gynnwys ychwanegiad bychan tuag at chwyddiant yn unig. Ategwyd y golyga hyn na fydd cydnabyddiaeth ariannol o'r costau sylweddol eraill sy'n wynebu awdurdodau lleol. Rhybuddiwyd y byddai hyn yn doriad cyllideb heblaw bod graddfa chwyddiant yn gostwng cyn Ebrill 2026.

Mynegwyd pryder mawr am y bwlch cyllidebol potensial sy'n wynebu'r Cyngor, gan amlygu bod y Cyngor yn barod wedi gwasgu'r gyllideb gan adnabod £74miliwn o doriadau ac arbedion dros y cyfnod o tua 15 mlynedd diwethaf.

Pryderwyd am effaith uniongyrchol toriadau pellach ar y gwasanaethau a gynigir i drigolion Gwynedd ac effaith hynny ar gymunedau, os na fydd y Cyngor yn derbyn setliad teg. Nodwyd bod y ffigyrau hyn yn rai brawychus, gan ategu pwysigrwydd ystyried y camau nesaf.

Sylwadau'n codi o'r drafodaeth:

- Cyfeiriwyd at y sefyllfa ansicr hon, gan nodi bod cryn wahaniaeth rhwng lefel chwyddiant a'r cynnydd yn y setliad. Nodwyd y bydd gorfod cynyddu'r dreth cyngor i gau'r diffyg hwn yn ganlyniad uniongyrchol o fethiant Llywodraeth Cymru i gynyddu'r setliad yn unol â chwyddiant.
- Ychwanegwyd bod awdurdodau lleol, drwy Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, wedi bod yn pwyso am setliadau aml-flwyddyn, ond bod addewidion y Llywodraeth o hynny ddim wedi dod i law.

## 10. BLAENRAGLEN Y CABINET

Cyflwynwyd yr adroddiad gan y Cyng. Nia Jeffreys.

**PENDERFYNIAD**

Cymeradwywyd y flaenraglen.

Dechreuodd y cyfarfod am 1:00yh a daeth i ben am 2:00yh.